**Disgrifiad Swydd**

**Cydlynydd Gwirfoddolwyr a Gardd Gymunedol**

Gweithio 1 diwrnod yr wythnos / 7.5 awr

Cyflog: £23,500 pro rata

Contract tymor penodol 2 flynedd o 5 Awst 2024

Adrodd i'r Cyfarwyddwr Artistig a Busnes

## Ynglŷn â People Speak Up

Mae People Speak Up (PSU) yn sefydliad cymunedol cymdeithasol, celfyddydol, iechyd, iechyd meddwl a lles sy'n cysylltu pobl ac yn creu cymunedau iachach a gwydn trwy adrodd straeon, barddoniaeth lafar, ysgrifennu creadigol, gwirfoddoli, hyfforddi, a'r celfyddydau cyfranogol.

Rydym yn elusen gofrestredig (1193117) wedi'i lleoli yn y Ffwrnes Fach, Canolfan Gelfyddyd, Iechyd a Lles Llanelli yng nghanol tref Llanelli ac yn gweithio ar draws De Cymru.

Cawn ein hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ymddiriedolaethau a sefydliadau, a thrwy gomisiynau gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

Sefydlwyd People Speak Up gan y Cyfarwyddwr Artistig a Busnes Eleanor Shaw yn 2017 ac mae'n tyfu'n gyflym, felly rydym yn ehangu'r tîm gyda chyflwyniad y swydd newydd hon am gyfnod penodol yn unol â'n cyllid sydd wedi ei gadarnhau.

Darllenwch am PSU a'n prosiectau cyfredol: www.peoplespeakup.co.uk

Gwyliwch fideo byr am bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud https://bit.ly/AboutPSU

## Y rôl

Mae hon yn swydd newydd sydd wedi'i chreu o ganlyniad i gais grant llwyddiannus i ariannu cydlynydd gwirfoddolwyr a gardd gymunedol am un diwrnod yr wythnos, neu gyfwerth.

Derbyniodd People Speak Up arian i sefydlu gardd gymunedol yn y Ffwrnes Fach yng nghanol tref Llanelli. Hyd yma mae hyn wedi'i redeg gan y tîm staff a gwirfoddolwyr.

Wrth i'r ardd ddechrau tyfu o ran maint, mae angen rhywun arnom nawr i ofalu amdani a chydlynu'r gwirfoddolwyr sy'n cefnogi gofal yr ardd, a gwaith People Speak Up ar draws y sefydliad.

Mae'r ardd yn ardd lles, yn tyfu perlysiau, ffrwythau a llysiau a blodau brodorol i annog pryfed peillio i'r ardal drefol hon.

Mae'n noddfa i bobl o bob oed, cefndir a phrofiad bywyd i'w mwynhau, yn arddwyr newydd neu brofiadol sydd am gael eu dwylo'n frwnt, neu'n bobl sy'n chwilio am le heddychlon i ymlacio, ysgrifennu, tynnu llun a chefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles.

Gan weithio un diwrnod yr wythnos, neu 7.5 awr wedi'u rhannu ar draws yr wythnos, byddwch yn arwain ar gynllunio, paratoi, plannu a gofal parhaus yr ardd, gan sicrhau ei bod yn cael ei chynnal yn dda, ac yn lle diogel a chroesawgar i bawb ei fwynhau.

Byddwch yn cynnal yr holl offer, strwythurau plannu a byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn cael eu rhoi ar waith a'u dilyn.

Byddwch yn arwain ar recriwtio, hyfforddi a chefnogi parhaus gwirfoddolwyr ar gyfer yr ardd ac ar draws y sefydliad.

Bydd hyn yn cynnwys sefydlu gwirfoddolwyr i'r sefydliad, trefnu hyfforddiant diogelu, sesiynau hyfforddiant iechyd a diogelwch a threfnu gwiriadau DBS.

Mae gwirfoddolwyr yn ennill credydau Amser Tempo https://wearetempo.org/ fel rhan o gynllun gwobrwyo a chydnabod am y gwaith amhrisiadwy maent yn ei wneud o fewn eu cymunedau. Byddwch yn rheoli'r cynllun ar gyfer People Speak Up, yn cofnodi'r oriau a nifer y credydau ar gyfer pob gwirfoddolwr ac yn cefnogi pobl i hawlio eu credydau.

Byddwch yn gweithio gyda phobl ifanc, pobl hŷn a phobl agored i niwed felly mae mynychu sesiynau hyfforddiant diogelu a gwiriad DBS clir yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

**Amdanoch chi**

Mae cariad at arddio yn hanfodol! Byddwch yn gallu rhannu'ch angerdd dros blannu yn frwdfrydig ac annog eraill yn dawel i roi cynnig arni a chymryd rhan. Byddwch yn bersonol, agored, cynnes ac yn sensitif i anghenion pobl, yn gallu addasu'ch dull, gan gydnabod pryd y byddai pobl yn hoffi cael lle a heddwch a'r rhai a fyddai'n hoffi sgwrsio.

Byddwn yn edrych atoch chi i ddarparu'r wybodaeth arbenigol, efallai eich bod wedi gweithio fel garddwr, mewn canolfan arddio, gyda naill ai hyfforddiant ffurfiol neu wedi magu digon o brofiad yn cynnal gardd mewn amgylchedd naturiol, di-gemegol.

Yn ddelfrydol byddwch wedi arwain tîm o wirfoddolwyr o'r blaen ac mae gennych brofiad o reoli gwirfoddolwyr a'u hyfforddiant neu sgiliau trosglwyddadwy o gefnogi prentis neu debyg.

Efallai eich bod, neu wedi bod, yn wirfoddolwr hirdymor eich hun.

Rydym yn ymdrechu i ddod yn gwmni dwyieithog ac yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddai'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg sylfaenol yn ddymunol. Mae bod yn weithredol wrth wella'ch Cymraeg yn hanfodol.

Os ydych yn siaradwr Cymraeg rhugl, hyd yn oed yn well.

**I ymgeisio**

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol neu fideo byr*, uchafswm o 5 munud, yn rhoi enghreifftiau i esbonio sut rydych yn bodloni manyleb y rôl, at Eleanor Shaw eshaw@peoplespeakup.co.uk

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Saesneg neu Gymraeg.

*Os ydych yn anfon fideo, e-bostiwch Eleanor yn gyntaf gyda'ch manylion cyswllt a CV os oes gennych un. Mae ffeiliau fideo yn aml yn rhy fawr i'w e-bostio felly anfonwch ef trwy Wetransfer neu debyg i sicrhau ei fod yn ein cyrraedd. Gellir anfon fideos hefyd trwy WhatsApp at Eleanor ar 07972 651920, cynhwyswch eich enw llawn fel y gallwn ei gyfateb â'ch e-bost. Cysylltwch â ni os oes angen help arnoch i wneud hyn.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 9yb Dydd Llun 15fed Gorffennaf 202

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gwrdd ag Eleanor am sgwrs anffurfiol a thaith o'r ardd a'r Ffwrnes Fach ar ddydd Llun 22ain Gorffennaf yn y Ffwrnes Fach, Heol y Parc, Llanelli SA15 3YE. Rhowch wybod i ni yn eich cais os nad ydych yn gallu gwneud y dyddiad hwn.

Mae People Speak Up eisiau cyflawni'r nodau a'r ymrwymiadau a nodir yn ein polisi cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys peidio â gwahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a chreu darlun cywir o gyfansoddiad ymgeiswyr i'n helpu i annog cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein proses recriwtio.

Gofynnwn i chi ein helpu i wneud hyn trwy gwblhau'r ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ddienw hon. Mae cwblhau'r ffurflen yn wirfoddol a bydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei chadw'n gyfrinachol, at ddibenion monitro yn unig.

https://forms.gle/a4ZNhPhkrvbadR6e7